Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT
029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT
www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Cylchlythyr | Circular

# Dull cyllido ymchwil CCAUC o flwyddyn academaidd 2022/23

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Gorffennaf 2022 | |
| **Cyfeirnod:** | W22/24HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | Dim angen ymateb | |
| **Cysylltwch â:** | Enw: | Ben Raynor |
| | Ffôn: | 029 2085 9749 |
| | E-bost: | ben.raynor@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn manylu ar y newidiadau a wnaed i ddull CCAUC o gyllido ymchwil o'r flwyddyn academaidd 2022/23. Dyma'r dull a ddefnyddir i ddyrannu cyllid CCAUC ar gyfer ymchwil o ansawdd (QR) a hyfforddiant ymchwil ôl-radd (PGR).

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Cefndir

1. Mae CCAUC yn cyllido ymchwil mewn SAUau yng Nghymru yn bennaf drwy ei ffrwd cyllido QR. Cyllid heb ei glustnodi yw hwn, sy'n galluogi sefydliadau i benderfynu sut i'w wario er mwyn cyflawni eu nodau strategol orau. Ym mlwyddyn academaidd 21/22 dyrannodd CCAUC £81.7m i SAUau drwy ei brif ffrwd ar gyfer cyllido QR ym mlwyddyn academaidd 2021/22 (ac eithrio cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn). Dyrennir cyllid QR ar sail fformiwla.

2. Mae CCAUC hefyd yn dyrannu cyllid i gyfrannu at gostau hyfforddi myfyrwyr ymchwil ôl-radd (PGR) mewn SAUau yng Nghymru. Yn 21/22 dyrannodd CCAUC £6.2m i SAUau drwy'r ffrwd hon. Dyrennir cyllid hyfforddiant ôl-radd ar sail fformiwla.

3. Mae fformiwla QR CCAUC yn anelu i gyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy, drwy fesur ansawdd, maint a chynaliadwyedd. Tynnir y mesuriadau ansawdd a maint o ganlyniadau ymarferion asesu ymchwil cenedlaethol y DU. Cyhoeddodd yr ymarfer diweddaraf o'r fath, FfRhY 2021, ei ganlyniadau yn haf 2022. Bydd CCAUC yn defnyddio canlyniadau FfRhY 2021 yn sail ar gyfer ei ddyraniad QR o flwyddyn academaidd 2022/23.

4. Penderfynodd Cyngor CCAUC adolygu ei drefniadau cyllido ymchwil cyn cyhoeddi canlyniadau FfRhY 2021. Ceir manylion llawn y cefndir i'r adolygiad hwn, gan gynnwys canlyniadau ymgynghoriad ar weithredu dull newydd o gyllido ymchwil, yng nghylchlythyr W22/23HE. Mae'r cylchlythyr hwn yn esbonio'r newidiadau a gyflwynwyd i ddull CCAUC o gyllido ymchwil o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

## Newidiadau i'r dull o gyllido ymchwil: QR

5. Roedd fformiwla QR CCAUC a ddefnyddiwyd o 2015/16 i 2021/22 yn defnyddio canlyniadau FfRhY 2014 i lywio dyraniadau QR. Roedd y fformiwla yn dyrannu cyllid ar sail Uned Asesu FfRhY 2014. Byddai maint yr ymchwil ym mhob cyflwyniad FfRhY a oedd yn bodloni'r trothwyon maint ac ansawdd penodedig yn cael ei luosogi â'r pwysoliadau pwnc priodol, ac yna â'r pwysoliadau ansawdd. Cafodd y pwysoliadau ansawdd eu cymhwyso'n gymesur â'r proffil ansawdd ar gyfer y cyflwyniad. Cafodd canlyniadau'r fformiwla wedyn eu cynyddu'n gymesur hyd at gyfanswm y cyllid a oedd ar gael ar gyfer QR. Ceir manylion llawn y dull hwn ar ein gwefan. Roedd y dull hefyd yn cynnwys yr elfennau canlynol a ddyrannwyd ar sail wahanol.
    - Swm wedi'i neilltuo a ddyrannwyd yn gymesur ag ymchwil 4* yn unig.
    - Swm wedi'i neilltuo a ddyrannwyd yn gymesur ag incwm ymchwil a ddyfarnwyd gan elusennau i SAUau drwy gystadleuaeth agored.
    - Swm wedi'i neilltuo a ddyrannwyd i gefnogi cyhoeddiadau ysgolheigaidd a gweithgareddau cysylltiedig ym maes diwylliant, hanes a llenyddiaeth Cymru.

6. Nod yr adolygiad o fethodoleg cyllido ymchwil CCAUC oedd sicrhau bod rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy ym mhrifysgolion Cymru yn parhau i gael ei

chefnogi drwy fformiwla symlach a mwy tryloyw. Cefnogwyd y nodau hyn gan y sector addysg uwch mewn ymatebion i ymgynghoriad CCAUC. Er mwyn cyflawni'r nodau dan sylw, mae CCAUC yn cadw strwythur sylfaenol y fformiwla ddyrannu ar gyfer QR. Bydd y fformiwla'n parhau i ddyrannu cyllid erbyn Uned Asesu FfRhY 2021 drwy luosogi maint yr ymchwil ym mhob cyflwyniad cymwys i'r FfRhY â'r pwysoliadau pwnc priodol, ac wedyn â phwysoliadau ansawdd. Er mwyn cyllido rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy'n well, a symleiddio'r dull o ddyrannu, mae CCAUC yn cyflwyno'r newidiadau canlynol i'r dull presennol:

- **Cael gwared â'r ffrwd rhagoriaeth ymchwil** a **chodi'r sgôr ansawdd 4* o 3 i 4**: bydd hyn yn symleiddio'r fformiwla ac yn dangos yn gliriach sut mae'n dyrannu cyfran fwy o gyllid i'r crynodiadau mwyaf o ymchwil sy'n flaenllaw yn y byd.
- **Newid y trothwy cynaladwyedd o 6 i 5.5**: mae hyn yn cadw'r egwyddor na fydd Unedau Asesu sydd heb gyrraedd lefel benodol o ran maint neu ansawdd o ran eu gwaith ymchwil yn denu cyllid. Mae'r trothwy a ddewiswyd ar gyfer y dull newydd yn sicrhau bod yr holl Unedau Asesu yr aseswyd bod ganddynt rywfaint o leiaf o weithgarwch ymchwil sy'n flaenllaw yn y byd yn denu cyllid drwy'r fformiwla newydd.
- **Dileu'r holl fân fesuriadau maint**: mae hyn yn symleiddio ac yn dangos yn gliriach sut mae'r fformiwla gyllido'n dyrannu ar sail maint, drwy ddefnyddio nifer y staff CALl a gyflwynwyd i'r FfRhY fel yr unig fesuriad maint yn ein fformiwla. Gan fod FfRhY 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol cyflwyno'r holl staff â chyfrifoldeb sylweddol dros ymchwil, mae'r mesuriad maint bellach yn rhoi darlun llawer mwy cyflawn o gapasiti ymchwil cynaliadwy SAUau ar gyfer y tymor hir.
- **Gosod y ffrwd incwm elusennol ar 10% o QR**: bydd pennu'r swm sefydlog hwn ar gyfer y ffrwd hon, a dileu'r mân fesuriad ar gyfer incwm elusennol yn sicrhau bod prifysgolion yn parhau i dderbyn cymorth ychwanegol ar gyfer ymchwil hollbwysig a gyllidir gan elusennau, ac ar yr un pryd yn symleiddio ac yn dangos yn gliriach sut mae CCAUC yn dyrannu'r cymorth hwn.
- **Dileu a chyllido cymorth ar wahân ar gyfer cyhoeddiadau ysgolheigaidd a gweithgareddau cysylltiedig ym maes diwylliant, hanes a llenyddiaeth Cymru**: mae hyn yn symleiddio'r fformiwla QR drwy gael gwared ag elfen a oedd yn gweithredu'n wahanol. Ceir manylion llawn y trefniadau cyllido newydd, sy'n cadw cyllid ar yr un lefel, yng nghylchlythyr W22/15HE CCAUC.

7. Drwy gyflwyno'r newidiadau hyn, a defnyddio canlyniadau FfRhY ar gyfer data meintiol ac ansoddol, bydd dyraniad QR CCAUC yn parhau i wobrwyo rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy yn SAUau Cymru drwy ddull dyrannu symlach, gan ddefnyddio'r dystiolaeth gadarn ddiweddaraf.

**Newidiadau i'r dull o gyllido ymchwil: PGR**

8. Mae CCAUC yn dyrannu cyllid hyfforddiant ymchwil ôl-radd (PGR) i gefnogi hyfforddiant PGR mewn SAUau. Bob blwyddyn, bydd CCAUC yn sefydlu

cyfanswm y cyllid sydd i'w ddarparu ar gyfer cymorth PGR, ynghyd â'r uned safonol o gyllid ar gyfer pob un o'r tri grŵp o bynciau cysylltiedig. Gelwir y grwpiau hyn yn Gategorïau Pwnc Academaidd, neu'n ASCs. Mae gan bob ASC Uned Gyllid wahanol a ddefnyddir i gyfrifo'r dyraniad PGR, i adlewyrchu'r gwahanol gostau'n gysylltiedig â hyfforddi mewn gwahanol ddisgyblaethau. Cymerir ymrestriadau PGR cymwys o'r cofnod myfyrwyr HESA diweddaraf sydd ar gael. Cyfrifir grantiau drwy gymhwyso'r uned safonol o gyllid i'r ymrestriadau PGR cymwys yn yr ASC dan sylw. Lle bo cyfanswm y dyraniadau'n uwch na'r cyllid sydd ar gael, caiff y dyraniadau eu gostwng ar sail pro rata. Ceir manylion llawn y dull hwn ar ein gwefan.

9. Rhoddodd yr adolygiad o gyllid ymchwil gyfle i adolygu'r dull dyrannu ar gyfer PGR, a chyfle i wneud y dull dyrannu'n symlach ac yn fwy tryloyw lle bo'n briodol. Mae CCAUC yn cadw strwythur sylfaenol dull dyrannu'r PGR, lle caiff dyraniadau eu pennu ar sail ymrestriadau PGR cymwys ac ASCs wedi'u rhannu i fanciau cost uchel, canolig ac isel. Bydd CCAUC hefyd yn parhau i benderfynu ynghylch lefel y cyllid sydd ar gael bob blwyddyn, er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau i ddulliau neu ofynion cyllido PGR dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn cyflawni nodau cyllid hyfforddiant PGR yn well, mae CCAUC yn cyflwyno'r newidiadau canlynol i'r dull cyfredol:

   - **Dileu terfynau amser ar gyfer ymrestriadau PGR cymwys**: yn ôl y dull presennol, mae'n rhaid i fyfyrwyr PGR fod ar dair blynedd cyntaf eu rhaglen astudio amser llawn, neu gyfwerth ag amser llawn. Mewn asesiad effaith ar gyfer eu cyllid craidd, canfu Ymchwil Lloegr fod gorfodi terfynau amser ar ymrestriadau PGR cymwys ar gyfer cyllid cymorth PGR yn creu perygl o effeithiau negyddol anuniongyrchol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol. Wedi hynny, cafodd terfynau amser eu dileu o'u meini prawf cymhwystra. Mae CCAUC yn gwneud yr un peth er mwyn osgoi'r un effeithiau negyddol anuniongyrchol posibl.
   - **Cyflwyno pwysoliadau cost pwnc i ddisodli Unedau Cyllid**: dyma'r un pwysoliadau costau pwnc a ddefnyddiwyd yn y fformiwla QR. Mae hyn yn symleiddio ac yn cynyddu cysondeb o ran y modd y mae CCAUC yn cydnabod gwahanol gostau ymchwil a hyfforddiant ymchwil mewn gwahanol ddisgyblaethau academaidd.

10. Drwy weithredu'r newidiadau hyn, bydd CCAUC yn cynyddu tryloywder a chysondeb ei gyllid hyfforddiant PGR, gan osgoi effeithiau negyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

11. Mae CCAUC ar hyn o bryd yn adolygu ei ddull o gyllido addysgu, sy'n cynnwys cynnig i gyflwyno grwpiau cost i ddisodli ASCs, sy'n deillio o ddata mwy diweddar. Pan fydd yr adolygiad o gyllid addysgu wedi dod i ben, byddwn yn ystyried effaith y newid hwn ar y ddull dyrannu PGR os oes angen.

## Amserlen

12. Defnyddir dulliau newydd CCAUC o gyllido ymchwil o flwyddyn academaidd 2022/23.

**Rhagor o wybodaeth / ymatebion i:**

13. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Ben Raynor (ben.raynor@hefcw.ac.uk).

**Asesu effaith ein polisïau**

14. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Atodiad A: Methodoleg cyllido QR o flwyddyn academaidd 2022/23**

1. Mae CCAUC yn dyrannu cyllid QR mewn modd detholus er mwyn gwobrwyo rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy. Mae'r data a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyllid QR o flwyddyn academaidd 2022/23 wedi'u cymryd o ganlyniadau FfRhY 2021.

2. Cyflwynwyd ymchwil i FfRhY 2021 wedi'i rhannu i 34 o Unedau Asesu seiliedig ar bwnc. Mynegwyd y canlyniadau asesu ar ffurf proffiliau ansawdd a ddangosai gyfran y gweithgarwch ymchwil ym mhob cyflwyniad a aseswyd ar bob un o'r lefelau canlynol:
    - 4* Gyda'r gorau yn y byd
    - 3* Yn rhagorol yn rhyngwladol
    - 2*, Wedi'i gydnabod yn rhyngwladol
    - 1*, Wedi'i gydnabod yn genedlaethol
    - Diddosbarth (D), yn is na'r safon cydnabyddiaeth genedlaethol

3. Mae cyllid QR yn gwobrwyo rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy Felly:
    - Nid ydym yn cynnwys gweithgarwch ymchwil diddosbarth, 1* na 2* yn y fformiwla ddyrannu ar gyfer QR.
    - Rydym wedi cymhwyso trothwy cynaliadwyedd (trothwy ansawdd a maint cyfun). Cyfrifir hyn drwy luosi nifer y staff CALl ar 3* a 4* ym mhob cyflwyniad FfRhY â'r pwysoliadau ansawdd (1 ar gyfer 3* a 4 ar gyfer 4*), gan adio'r canlyniadau i gynhyrchu un sgôr ar gyfer pob cyflwyniad, ac yna cymhwyso torbwynt ar gyfer cyllid. O 2022/23, mae'r torbwynt hwn wedi'i osod ar sgôr o 5.5.
    - Byddwn hefyd yn cymhwyso trothwy maint, fel nad yw Unedau Asesu â llai na 3 staff CALl wedi'u cyflwyno mewn gwaith dosbarthedig (1* ac uwch) yn denu cyllid QR.

4. Mae'r fformiwla QR ei hun yn cynnwys tair elfen: **ansawdd**,**maint**, a**phwysoliadau pwnc**. Cymhwysir pwysoliadau oddi mewn i bob un o'r tair elfen fel a ganlyn:

5. **Ansawdd**: caiff lefelau proffil ansawdd FfRhY 2021 eu pwysoli fel a ganlyn:
    - D - 0
    - 1* - 0
    - 2* - 0
    - 3* - 1
    - 4* - 4

6. **Maint**: Mae hyn yn cynnwys un prif fesuriad maint - nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) â chyfrifoldeb sylweddol dros ymchwil a gyflwynwyd i FfRhY 2021 ym mhob Uned Asesu.

7. **Pwysoliadau pwnc**: rhennir pynciau (a ddiffinnir gan Unedau Asesu FfRhY 2021) yn dri band i adlewyrchu eu costau cymharol. Dyma'r bandiau a'u pwysoliadau:
    - Meddygaeth glinigol a phynciau labordy 1.6
    - Pynciau â phremiwm technegol/arbrofol 1.3
    - Pynciau eraill 1.0

8. Caiff dyraniadau eu cronni fesul Uned Asesu drwy ddefnyddio data o gyflwyniadau FfRhY 2021. Caiff unrhyw gyflwyniadau nad ydynt yn bodloni'r trothwyon a ddisgrifir uchod wedi'u hepgor o'r cyfrifiad. Ar gyfer pob cyflwyniad arall, caiff y mesuriad maint ei luosogi â'r pwysoliad cost pwnc perthnasol. Caiff hyn wedyn ei luosogi â'r pwysoliadau ansawdd, a gymhwysir yn gymesur â phroffil ansawdd y cyflwyniad.

9. Caiff cyfanswm terfynol cyfrifiadau'r fformiwla eu cynyddu/gostwng yn gymesur at gyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer QR ym mhob blwyddyn.

10. Dyrennir un elfen o gyfanswm y gyllideb QR ar sail wahanol:
    - Dyrennir 10% o gyllid QR sydd ar gael yn gymesur â'r incwm ymchwil a ddyfernir gan elusennau drwy gystadleuaeth agored mewn unedau sy'n bodloni'r trothwyon QR ar gyfer maint a chynaliadwyedd. Darperir hyn er mwyn helpu sefydliadau i dalu Costau Economaidd Llawn yr ymchwil a gyllidir gan elusennau.

**Atodiad B: Methodoleg cyllido hyfforddiant PGR o flwyddyn academaidd 2022/23**

1. Mae CCAUC yn dyrannu cyllid i gefnogi hyfforddiant PGR mewn SAUau. Dim ond SAUau sy'n cymryd rhan yn y FfRhY sy'n gymwys i dderbyn y cyllid hwn. Daw'r data a ddefnyddir i gyfrifo cyllid hyfforddiant PGR o'r cofnod myfyrwyr HESA diweddaraf a oedd ar gael wrth gyfrifo'r dyraniad.

2. Bob blwyddyn, bydd CCAUC yn sefydlu cyfanswm y cyllid sydd i'w ddarparu ar gyfer cymorth PGR. Mae dyraniadau cyllid yn seiliedig ar gyflwyniadau i Unedau Asesu FfRhY 2021. I adlewyrchu costau amrywiol hyfforddiant PGR mewn gwahanol ddisgyblaethau academaidd, caiff Unedau Asesu FfRhY 2021 eu rhannu i dri Chategori Pwnc Academaidd (ASC) â phwysoliadau pwnc. Grwpiau o bynciau cysylltiedig yw ASCs y pennir gwahanol bwysoliadau pwnc iddynt wrth gyfrifo'r dyraniad PGR.

3. Caiff Unedau Asesu FfRhY 2021 eu mapio i ASCs fel a ganlyn (sylwer na chafwyd unrhyw gyflwyniadau o Gymru yn FfRhY 2021 ar gyfer Unedau Asesu sydd wedi'u hepgor):

| Grŵp pynciau | ASCs | Unedau Asesu FfRhY 2021 |
|---|---|---|
| 1 | 1b, 1d | 1, 2, 3 (rhannu), 4 (rhannu) |
| 2 | 1a, 1c, 3, 4 | 3 (rhannu), 4 (rhannu), 5 i 12, 14 (rhannu), 15 (rhannu), 24 (rhannu) |
| 3 | Pob ASC arall | 3 (rhannu), 13, 14 (rhannu), 15 (rhannu), 17 i 21, 23, 24 (rhannu), 26 i 28, 31 i 34 |

4. Dyma'r pwysoliadau pwnc PGR ar gyfer y gwahanol ASCs:

| Grwpiau Categori Pwnc Academaidd | | Pwysoliad pwnc |
|---|---|---|
| 1b, 1d | Meddygaeth Glinigol a Deintyddiaeth | 1.6 |
| 1a, 1c, 3, 4 | Gwyddoniaeth; Peirianneg a Thechnoleg; Gwyddorau Mathemategol, TG a Chyfrifiadura | 1.3 |
| Arall | Arall | 1.0 |

5. I bennu grantiau ar gyfer SAUau unigol, y cam cyntaf yw cymhwyso’r pwysoliad perthnasol ar gyfer y pwnc i CALl cofrestriadau cymhwysol ar gyfer pob ASC. I fod yn ymrestriad cymwys, mae'n rhaid i fyfyriwr:
    - Fod yn fyfyriwr cartref cyllidadwy
    - Bod yn astudio ar gyfer cymwysterau PGR
    - Bod mewn Uned Asesu sy'n denu cyllid QR yn fformiwla QR CCAUC
    - Beidio bod yn fyfyriwr cyfnewid sy'n dod i mewn i'r wlad
    - Yn weithredol o fewn y cyfnod adrodd

6. Wedyn caiff cyfanswm y cyllid ei ddyrannu yn ôl cyfran i’r CALl a bwysolwyd yn ôl pwnc. Darperir cyllid hyfforddiant PGR i sefydliadau ar ffurf grant bloc.